

Materion symudol

Ymchwilio i brofiad pobl o ddefnyddio
gwasanaethau symudol Android



Dyddiad Cyhoeddi 8 Hydref 2020

Trosolwg

Mae ffonau symudol yn eitemau hanfodol i filiynau o bobl ledled y DU. Boed hynny ar gyfer gwaith, cadw mewn cysylltiad â theulu neu siopa ar-lein, mae cadw mewn cysylltiad yn bwysicach nag erioed – yn enwedig yng ngoleuni pandemig Covid-19.

Er mwyn deall yn well sut mae pobl yn defnyddio eu gwasanaethau symudol, a'r profiad maent yn ei gael, mae Ofcom wedi dadansoddi data torfol a gasglwyd rhwng mis Ionawr a mis Ebrill 2020 o tua 200,000 o ddyfeisiau Android¹ ledled y DU.

Yn yr adroddiad hwn, rydym yn canolbwyntio ar y gyfran o gysylltiadau ar draws technolegau rhwydwaith di-wifr (2G, 3G, 4G, 5G, Wi-Fi), y gyfradd llwyddiant ar gyfer cysylltiadau symudol, amseroedd ymateb a phatrymau yn y ffyrdd mae pobl yn defnyddio eu ffonau symudol drwy gydol y dydd. Rydym hefyd yn edrych ar sut mae'r rhain yn amrywio yn ôl ffactorau fel lleoliad, diwrnod o'r wythnos ac amser o'r dydd.

Ym mis Mawrth, cyflwynwyd y 'cyfyngiadau symud' yn y DU mewn ymateb i bandemig Covid-19. Cafodd hyn effaith sylweddol ar ein defnydd o wasanaethau cyfathrebu symudol, wrth i bobl ddod yn fwy dibynnol ar ffonau clyfar a dyfeisiau eraill i gadw mewn cysylltiad â ffrindiau a theulu, gweithio gartref a chael y newyddion diweddaraf. Er mwyn edrych yn fanylach ar y newid hwn, fe wnaethom gymharu'r defnydd cyn y cyfyngiadau symud (1 Ionawr i 22 Mawrth) ac ar ôl y cyfyngiadau symud (23 Mawrth i 30 Ebrill). Ar gyfer rhai metrigau perfformiad – cyfradd llwyddiant ar gyfer cysylltiadau symudol ac amseroedd ymateb – gwnaethom gymharu'r cyfartaleddau cyn y cyfyngiadau symud â ffigurau o adroddiad y llynedd i weld a fu newidiadau sylweddol o un flwyddyn i'r llall. Oherwydd newidiadau yn y panel, nid ydym yn gallu cymharu o un flwyddyn i'r llall ar gyfer metrigau eraill sy'n dibynnu ar ymddygiad defnyddwyr.

I gael disgrifiad mwy manwl o'r dulliau casglu data a'r dadansoddiad, ewch i Atodiad 1: Methodoleg Dechnegol ac Atodiad 2: Methodoleg Ystadegol.

¹ Cafodd y set ddata ei thrwyddedu i Ofcom drwy arbenigwr meincnodi rhwydwaith, sef umlaut, ac mae'n cynnwys gwybodaeth am brofiad defnyddwyr ffonau symudol a pherfformiad rhwydwaith. Mae'r system weithredu a ddefnyddir ar iPhones (iOS) yn cyfyngu ar gasglu data perfformiad rhwydwaith yn ôl apiau cefndir, felly mae'r data yn yr adroddiad hwn yn ymwneud â dyfeisiau Android yn unig. Ffonau clyfar yw'r dyfeisiau hyn yn bennaf, er bod nifer fach o dabledi a dyfeisiau Android eraill gyda cherdyn SIM.

Ein canfyddiadau

Roedd dyfeisiau wedi'u cysylltu â Wi-Fi yn hytrach nag â rhwydwaith cellog am ddwy ran o dair (65%) o'r amser.

Roedd pobl yn gallu cysylltu i rhwydwaith 4G ar 97.3% o achlysuron pan wnaethant geisio gwneud hynny.

Nid oedd dim gwahaniaethau sylweddol yn y cyfraddau methiant ar gyfer cysylltiadau symudol rhwng gweithredwyr rhwydweithiau symudol. Pobl ar EE oedd y mwyaf tebygol o gysylltu â rhwydwaith 4G yn hytrach na rhwydwaith 3G, a phobl ar Three oedd y lleiaf tebygol o gysylltu â rhwydwaith 4G.

Mae dadansoddiad o berfformiad mewn ardaloedd traffig uchel yn dangos bod cysylltiadau 3G a 4G bron ddwywaith yn fwy tebygol o fethu yn ystod y cyfnodau prysuraf nag ar adegau eraill drwy gydol y dydd.

Cynyddodd hyd galwad symudol ar gyfartaledd bron i ddau funud yn ystod camau cynnar y cyfyngiadau symud.

Roedd y cyfyngiadau symud hefyd wedi arwain at ostyngiad dramatig yn y defnydd o ffonau symudol yn ardaloedd canolog prifddinasoedd y DU, wrth i bobl roi'r gorau i gymudo i'r ardaloedd hyn a gweithio gartref, fel arfer dros Wi-Fi.

Nodiadau ar y data sydd wedi'i gynnwys yn yr adroddiad hwn

Mae'r ymchwil hwn yn rhan o raglen waith ehangach gan Ofcom i wneud gwaith ymchwil a darparu gwybodaeth am ansawdd y gwasanaeth symudol. Mae'r data yn yr adroddiad hwn yn ymwneud â pherfformiad pan fydd darpariaeth rhwydwaith ar gael gan weithredwr, ac mae [gwiriwr band eang a ffonau symudol Ofcom](#) yn cynnwys gwybodaeth am ddarpariaeth symudol y pedwar rhwydwaith symudol ledled y DU.

Mae'r ffigurau ar gyfer cyfraddau llwyddiant cysylltiadau data a rhannu rhwydwaith yn yr adroddiad hwn yn seiliedig ar brofion cefndir sy'n cael eu cynnal bob 15 munud. Mae'r profion hyn yn cael eu cynnal ar y dechnoleg rhwydwaith data sydd ar gael ar y pryd, fel y pennir gan y ddyfais, ac yn cael eu cofnodi fel rhai llwyddiannus neu aflwyddiannus. Gan na allwn ddweud a fyddai profion aflwyddiannus wedi llwyddo ar dechnoleg rhwydwaith data arall, nid yw'r metrigau hyn yn fesur o ddarpariaeth gyffredinol y rhwydwaith.

Rydym wedi eithrio tri diwrnod ym mis Mawrth o'n dadansoddiad: yr 17eg, y 18fed a'r 19eg. Y rheswm am hyn yw bod tagfeydd dros dro ar y gwasanaethau Cydgysylltu rhwng gweithredwyr rhwydweithiau symudol, a gafodd eu datrys drwy gynyddu capasiti'r gwasanaethau hyn yn raddol dros ychydig ddyddiau. Yn ein data, gwelsom fod hyn wedi cael effaith sylweddol ar alwadau ffonau symudol a dibynadwyedd cysylltiadau data. Oherwydd yr amgylchiadau anarferol, nid oeddem wedi cynnwys data ar gyfer y dyddiau hyn yn ein dadansoddiad cyn y cyfyngiadau symud ar gyfer galwadau ffonau symudol, dibynadwyedd cysylltiadau data a'r amser ymateb ar gyfer ceisiadau am ddata.

Cynhelir yr holl waith dadansoddi ar y lefel gweithredwr rhwydwaith symudol cyfanwerthol (MNO). Gall cyfeiriadau at berfformiad pedwar Gweithredwr Rhwydweithiau Symudol (MNO) y DU (EE, O2, Three a Vodafone) hefyd gynnwys perfformiad panelwyr sy'n gwsmeriaid gweithredwyr rhith rwydwaith symudol sy'n defnyddio'r rhwydweithiau hyn, fel Tesco Mobile, GiffGaff, iD Mobile a Virgin Mobile.

Dim ond rhai o'r ffactorau efallai y bydd pobl yn dymuno eu hystyried wrth wneud penderfyniadau am eu gwasanaeth symudol yw'r mesurau a gafodd eu dadansoddi. Mae pris, y math o ffôn, ansawdd y gwasanaeth i gwsmeriaid, darpariaeth a thelerau'r contract yn agweddau perthnasol eraill y dylid eu hystyried.